# **Rhaglen Hyfforddiant ar y cyd i ddarparwyr Gofal Plant a Chwarae** - Sir Gaerfyrddin

Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal Plant a Chwarae

Family Information, Childcare and Play

Dechrau'n Deg

Flying Start

Cyngor **Sir Gâr**

**Carmarthenshire**

County Council

## Rhagarweiniad

Mae'r llyfryn hwn yn darparu manylion ynghylch yr holl gyrsiau hyfforddiant a ddarperir gan y Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae a’r Tîm Dechrau'n Deg.

## Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae

Mae'r Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae yn cynllunio a chydlynu cyrsiau hyfforddi sy'n ofynnol gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) ac maen nhw'n agored i'r holl ddarparwyr gofal plant a chwarae yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r cyrsiau achrededig yn cynnwys Cymorth Cyntaf Pediatrig, Cyflwyniad i Amddiffyn Plant, Hylendid Bwyd Sylfaenol (cyrsiau llawn a chyrsiau gloywi) ac ati.

Caiff y cyrsiau hyn eu cyllido'n sylweddol gan yr Awdurdod Lleol a chaniateir dau aelod o staff yn unig o bob lleoliad i fynychu’r cwrs. Er mwyn archebu lle ar y cyrsiau gofynnol hyn, cysylltwch â'r Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae ar 01267 246555 (dydd Llun i ddydd Gwener). Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ystod o wasanaethau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd ar:
**http://fis.carmarthenshire.gov.uk/cym**



## Tîm Dechrau'n Deg

Yn gyffredinol, mae'r cyrsiau a restrir ar gyfer Meithrinfeydd sydd â Chontract Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar wella arferion gwella ansawdd ac yn cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i ymarferwyr, arweinwyr a rheolwyr ym maes gofal plant. Nid ydynt yn canolbwyntio ar gyrsiau gofynnol yr AGC. Maen nhw yn bennaf ar gyfer Meithrinfeydd â Chontract Dechrau'n Deg ac maent yn rhad ac am ddim. Fe'u cynhelir yn ystod oriau gwaith gan amlaf, sy'n golygu bod cyllid ôl-lenwi ar gael (yn amodol ar gyllideb) i leoliadau Dechrau'n Deg yn unig, er mwyn rhyddhau staff i ddod i'r cyrsiau o dan eu cytundebau contractiol.

**Mewn achosion lle nad yw cyrsiau wedi'u llenwi gan leoliadau sydd â chontract Dechrau'n Deg, gallwn gynnig y llefydd gwag i'r Sector Gofal Plant ehangach (meithrinfeydd nad oes ganddynt gontract â Dechrau'n Deg). Felly, rydym yn annog unrhyw leoliad gofal plant, meithrinfa neu grŵp chwarae nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg i ffonio 01554 742447 er mwyn rhoi enwau ar y rhestr aros.** Os yw llefydd yn dod ar gael, byddwn yn cysylltu â'r staff sydd ar y rhestr aros er mwyn cynnig lle iddynt. Ond yn anffodus, ni ellir cynnig cyllid ôl-lenwi i leoliadau nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ystod o wasanaethau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd ar:
**http://fis.carmarthenshire.gov.uk/cym**



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council